

# Gweledigaeth y Diwydiant Cig Coch: Darparu Gwerth i Gymru

**Hybu Cig Cymru**
Meat Promotion Wales

**Mawrth 2026**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cadeirydd | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Sefyllfa'r diwydiant | 5 |
| Cyd-destun macro | 7 |
| Sefyllfa'r diwydiant o fewn y cyd-destun macro | 9 |
| Gweledigaeth | 10 |
| Nod | 11 |
| Blaenoriaethau | 12 |
| Camau Gweithredu | 13 |
| Gweithredu | 17 |
| Atodiad | 18 |

# Rhagair gan y Cadeirydd



**Gweledigaeth HCC ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yw diwydiant cystadleuol, proffidiol, effeithlon a chynaliadwy sy'n cofleidio ei gyfrifoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd hyn yn arwain at ddiwydiant cynhyrchiol, gwydn sy'n tyfu ac yn cyflawni ar gyfer talwyr ardoll, defnyddwyr a chymdeithas ehangach Cymru.**

Mae'r ddogfen Weledigaeth hon yn cyflwyno strategaeth HCC ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ynghyd ag asesiad o gyflwr presennol y diwydiant cig coch. Mae'n tynnu sylw at y cyfleoedd a'r heriau mae'r diwydiant yn eu hwynebu heddiw.

Mae natur gynhenid gysylltiedig diwydiant cig coch Cymru yn unigryw ac mae angen ei chefnogi i sicrhau bod amrywiaeth systemau ffermio Cymru yn parhau i ffynnu. Mae hyn yn mynd ymhellach na dim ond ffermio; mae busnesau eraill o fewn y gadwyn gyflenwi, fel arwerthwyr, proseswyr a'r sector bwyd ehangach, i gyd yn dibynnu ar gyflenwad cryf a chyson o dda byw o'n diwydiant. Bydd y ddogfen hon yn gweithredu fel glasbrint i HCC gefnogi ac uno pob elfen o'n sector a'n cadwyn gyflenwi i sicrhau llwyddiant a thwf i'n diwydiant yn y dyfodol.


Mae'r sector bwyd a ffermio wrth wraidd economi, diwylliant a threftadaeth wledig Cymru, ac mae'n hanfodol er mwyn cefnogi cadwraeth a thwf y Gymraeg. Dyna pam mae HCC wedi ymrwymo i sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru a'i gadwyn gyflenwi'n barod i wynebu heriau'r dyfodol - o gynhyrchiant a phroffidioldeb i ddiogelwch bwyd a newid hinsawdd - wrth barhau i wella enw da a chystadleurwydd y sector mewn marchnadoedd cenedlaethol a byd-eang.

Rydym wedi ymrwymo i gryfhau cystadleurwydd ein diwydiant, gellir cyflawni hyn trwy iechyd a lles anifeiliaid o safon uchel, defnyddio geneteg uwchraddol a rheoli glaswelltiroedd yn y ffordd orau posibl. Ynghyd â datblygiadau parhaus mewn prosesu, mae'r mentrau hyn yn gwella cynhyrchiant wrth leihau allyriadau, gan sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru yn adeiladu ar ei enw da cryf.

Drwy feithrin cydweithio, ysgogi arloesedd a chynnal ymrwymiad cryf i gynaliadwyedd, bydd HCC yn gweithio i sicrhau bod cig coch Cymru yn cael ei gydnabod am ei ansawdd, ei uniondeb a'i rôl hanfodol wrth gefnogi Cymru wydn a llewyrchus.



# Cyflwyniad



**Sefydlwyd Hybu Cig Cymru (HCC) yn 2003 fel y corff sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru yn strategol.**

Mae HCC yn cydweithio'n rhagweithiol ag unigolion, busnesau a sefydliadau ar draws y gadwyn gyflenwi er mwyn cynyddu maint a gwerth y cig coch sy'n cael ei werthu o Gymru yn ogystal â cheisio cynyddu cynhyrchiant, proffidioldeb, cynaliadwyedd y diwydiant. Mae HCC wedi ymrwymo i lwyddiant a datblygiad parhaus ei frandiau; Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI a Porc Blasus.

Er mwyn paratoi'r ddogfen hon, mae HCC wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, talwyr ardoll ac eraill o fewn y gadwyn gyflenwi. Roedd yr ymgysylltiad yn cynnwys cynrychiolaeth gan gynhyrchwyr, proseswyr a rhanddeiliaid ehangach, yn ogystal â holiadur ar gyfer talwyr yr ardoll a galwad am farn y diwydiant.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen hon, bydd HCC yn gweithio gyda'r diwydiant, y llywodraeth, y byd academaidd a chyrff ardoll eraill i dargedu arian ychwanegol i wneud y gorau o'r effaith ac ategu gweithgarwch ardoll craidd. Os nad yw'n cyflawni gweithgareddau'n uniongyrchol, bydd HCC yn arwain, yn dylanwadu ac yn hysbysu. Bydd hyn yn sicrhau bod buddsoddiad arian ardoll yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol pendant a thwf ar gyfer diwydiant cig coch Cymru.

Mae'r Weledigaeth uchelgeisiol hon hefyd wedi'i datblygu i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth gyfredol, cynlluniau gweithredu'r Llywodraeth a chyd-destun polisi; mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 (Tudalen 18).

# CIPOLWG AR Y DIWYDIANT

## FFERMIO A CHYNHYRCHU

Niferoedd y **mamogiaid bridio** yng **Nghymru** **(Mehefin 25)** **4.1m**

**10% o dan** y ffigur a gofnodwyd ym mis **Mehefin 2016**.

**Poblogaeth y buchod bridio eidion** ar hyn o bryd yw **133,500, 21% o dan** y ffigur **10 mlynedd ynghynt**. Ym **mis Mehefin 2025** roedd **2,150** o **foch bridio** ar **ddaliadau Cymru**.


### NIFER Y DALIADAU (Mehefin 2024)

| | | |
|---|---|---|
| 6,341 | 13,625 | 1,271 |

Yn **2024-25** cynyddodd incwm busnes fferm cyfartalog ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid mewn Ardaloedd Llai Ffafriol **68%** yn ôl prisiau cyfredol

**£37,200 y fferm**

ers y flwyddyn flaenorol.




Amcangyfrifir bod bron i **ddwy ran o dair** o'r cig dafad a tua **80%** o'r cig eidion sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn cael ei fwyta yn Lloegr.


## PROSESU

**15**
**lladd-dy cig coch yng Nghymru (2025)**

Yn **2025**, roedd y lladd-dai yn cyflogi cyfanswm **o tua 2,000 o bobl**

**Yn 2025, prosesodd y 15 lladd-dy:**

| | | |
|---|---|---|
| **176,000** pen | **1,995,900** pen | **21,000** pen |




## MASNACH

### MANWERTHWYR PRYDAIN YN 2025*

#### CIG OEN SYLFAENOL

**Gwerthiant**
50,200 t (-9.6% yn ôl y flwyddyn)
**Pris Cyfartalog**
£12.27/kg (+4.1%)
**Gwariant**
£615.8m
(-5.9%)

#### CIG EIDION SYLFAENOL

**Gwerthiant**
235,000 t (-6.4%)
**Pris Cyfartalog**
£11.52/kg (+17.6%)
**Gwariant**
£2.7bn
(+10.1%)

#### PORC SYLFAENOL

**Gwerthiant**
138,700 t (+2.7%)
**Pris Cyfartalog**
£6.39/kg (+2.2%)
**Gwariant**
£885.9m
(+5.0%)

* Data manwerthu ar gyfer y 52 wythnos ddaeth i ben 28 Rhag 2025

## ALLFORIO

### Yn 2025

Allforion **cig dafad** o Gymru - **£230.5m**

Allforion **cig eidion** o Gymru - **£112.4m**

**94%**
**o gig coch Cymru yn cael ei allforio i wledydd yr UE**


**Marchnadoedd posibl**



**Poblogaeth fyd-eang o 8.3bn sy'n tyfu**

**Cysylltwch â HCC am ffynonellau data perthnasol. Mae'r ffigurau'n gywir ar adeg cyhoeddi (Mawrth 2026) ac yn amodol ar newid.**


## Niferoedd da byw




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

Mae tueddiadau hirdymor yn dangos newidiadau strwythurol clir yn sector da byw Cymru. Roedd niferoedd y defaid yn sefydlog ar y cyfan ond maent wedi gostwng yn gyson ers 2017. Mae'r fuches bridio cig eidion yn parhau i grebachu, tra bod niferoedd y gwartheg godro'n dangos gwydnwch cyson a thwf cymedrol. Mae niferoedd bridio moch yn parhau'n anwadal iawn, sy'n tanlinellu pa mor fregus yw'r sector llai hwn sy'n sensitif i gostau.


## Ffatrïoedd prosesu




*Ffynhonnell: HCC*

Mae nifer y cyfleusterau prosesu cig coch sy'n gweithredu yng Nghymru wedi lleihau'n sylweddol dros y degawdau diwethaf, sy'n adlewyrchu pwysau strwythurol o fewn y sector ac ar draws y gadwyn gyflenwi ehangach. Yn 2025, roedd pymtheg o safleoedd prosesu cig coch cynradd yn parhau i weithredu, gyda phedwar o'r rhain yn cyfrif am oddeutu 80% o'r cyfanswm trwybwn.


## Yr hyn sy'n cael ei fwyta




*Ffynhonnell: AHDB, Defra, CThEF DU casglwyd gan Trade Data Monitor LLC*

Mae faint o gig eidion sy'n cael ei fwyta yn y DU wedi aros yn gymharol gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf, tra bod cig moch wedi dangos tuedd gymedrol ar i fyny. Mae'r defnydd o gig dafad wedi gostwng yn raddol ond mae'n ymddangos ei fod wedi sefydlogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r tueddiadau hyn yn dangos symudiad strwythurol tuag at broteinau rhatach, amlbwrpas, yn enwedig dofednod, tra bod y defnydd o gig coch yn parhau i ddangos galw sylfaenol gwydn.

## Masnach




*Ffynhonnell: CThEF*

Mae meintiau mewnforio cig eidion a chig llo wedi gostwng ychydig ers 2018 tra bod meintiau allforio wedi amrywio ond wedi aros yn agos at neu ychydig uwchlaw llinell sylfaen 2010 yn fras. Cynyddodd meintiau allforio cig dafad i ddechrau ond o ganlyniad i gyfyngiadau i gyflenwi domestig, mae wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae mewnforion cig dafad, a oedd yn dilyn yn agos at lefel 2010 i ddechrau, wedi dilyn tuedd ar i lawr ond dangosodd adferiad yn 2024.

# Cyd-destun macro

**Mae'r diwydiant cig coch yng Nghymru yn gweithredu o fewn tirwedd gymhleth ac esblygol sydd wedi'i dylanwadu gan ystod amrywiol o ffactorau allanol, sef ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol. Y ffordd hawsaf o wneud synnwyr o'r amgylchedd gweithredu cymhleth hwn yw ei archwilio gan ddefnyddio fframwaith PESTLE (sef Political, Economic, Social, Technological, Legal and Environmental yn Saesneg).**



## Gwleidyddol

Mae blaenoriaethau gwleidyddol - yn fwyaf nodedig diwygiadau i gefnogaeth amaethyddol a'r ymrwymiad i gyflawni sero net erbyn 2050 - yn ail-lunio cymhellion, disgwyliadau cydymffurfio a phenderfyniadau buddsoddi o fewn y diwydiant. Wrth i strwythurau cymorth a gofynion cynaliadwyedd esblygu, bydd angen i gynhyrchwyr addasu arferion busnes i gynyddu effeithlonrwydd a lle bo modd ceisio gwobr am leihau carbon, cefnogi enillion bioamrywiaeth a dangos defnydd tir gwydn. Mae datblygiadau polisïau masnach yn parhau i gynnig cyfleoedd a bygythiadau. Gall gwell mynediad i farchnadoedd allforio ddatgloi gwerth ar gyfer cynhyrchion premiwm Cymru, ac mae mwy o gystadleuaeth a threfniadau tariff newidiol yn gofyn am gynrychiolaeth wyliadwrus gan y diwydiant i sicrhau amodau marchnad teg a chydnabyddiaeth o safonau cynhyrchu uchel Cymru.

## Economaidd

Mae chwyddiant wedi codi costau ynni, llafur a thrafnidiaeth, gan gywasgu elw ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae pwysau ehangach costau byw'n atgyfnerthu sensitifrwydd prisiau ac yn cynyddu'r risg bod defnyddwyr yn dewis proteinau rhatach neu gig wedi'i fewnforio. Mae anwadalrwydd arian cyfredol yn ychwanegu mwy o ansicrwydd, sy'n effeithio ar gost cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio a chystadleurwydd allforion. Er mwyn amddiffyn proffidioldeb yn yr amgylchedd masnachu heriol hwn, rhaid i'r diwydiant fynd ar drywydd optimeiddio gweithredol - gan yrru effeithlonrwydd trwy dechnoleg, ceisio caffael cydweithredol a gwella prosesau dan arweiniad data - wrth gryfhau safle premiwm i amddiffyn gwerth yn erbyn cystadleuwyr rhatach. Bydd rheoli risg gweithredol, gan gynnwys arallgyfeirio'r farchnad, yn hanfodol ar gyfer gwydnwch busnes.







## Cymdeithasol

Mae deinameg gymdeithasol yn addasu nodweddion y galw am gig coch yn ogystal ag argaeledd llafur. Mae heriau parhaus wrth recriwtio a chadw gweithwyr medrus yn galw am fuddsoddiad mewn datblygu'r gweithlu, llwybrau gyrfa deniadol ac awtomeiddio dethol i leddfu pwysau. Ar ochr y galw, mae twf poblogaeth fyd-eang a mwy o gyfoeth yn cynnal potensial defnydd tymor hir, ond mae ymddygiad defnyddwyr y DU yn rhannu o dan ddylanwad pryderon amgylcheddol, iechyd, a moeseg. Ar yr un pryd, mae cyrchu lleol a diogelwch bwyd wedi dod yn broblemau mwy amlwg. Gall cig coch Cymru ymateb trwy ymgysylltu'n rhagweithiol ar darddiad, lles, maeth a gwerth cymunedol – gyda chymorth cynhyrchion wedi'u teilwra, fel fformatau a meintiau dognau cyfleus, a marchnata segmentu sy'n bodloni disgwyliadau defnyddwyr.

## Technolegol

Mae technoleg yn ysgogiad pendant ar gyfer cystadleurwydd. Mae deallusrwydd artiffisial, ffermio manwl gan gynnwys genomig, ac awtomeiddio yn galluogi bridio mwy craff, gwell iechyd i'r anifail, mewnbynnau wedi'u targedu a llai o wastraff - sydd i gyd yn gwella cynhyrchiant ac yn cefnogi systemau cynaliadwy. Gall offer digidol hefyd drawsnewid ymgysylltiad defnyddwyr, gan ddefnyddio data i bersonoli cyfathrebu, cadarnhau honiadau ar darddiad a lles ac adeiladu ymddiriedaeth. Bydd arloesedd mewn pecynnu ac ymestyn oes silff yn lleihau gwastraff ac yn cryfhau'r cynnig gwerth i fanwerthwyr a defnyddwyr. Ar yr un pryd, bydd buddsoddiad parhaus mewn dewisiadau amgen i gig a phroteinau wedi'u tyfu yn ail-lunio'r dirwedd gystadleuol.

## Cyfreithiol

Bydd trywydd aliniad y DU â rheolau'r UE, telerau cytundebau masnach, a chymhwyso tariffau a mesurau di-dariff yn dylanwadu ar gostau, cydymffurfiaeth, mynediad i'r farchnad a chystadleurwydd cyffredinol. Un o'r prif beryglon yw cyflwyno mewnforion a gynhyrchir i safonau iechyd, lles ac amgylcheddol anifeiliaid gwahanol; gallai hyn erydu hyder defnyddwyr a rhoi cynhyrchwyr Cymru dan anfantais. Bydd eiriolaeth gadarn dros gydraddoldeb safonau, labelu clir a gorfodi tryloyw yn hanfodol. Ar yr un pryd, gall rheolau llymach ar hysbysebu, honiadau iechyd a labelu bwyd gyfyngu ar hyblygrwydd marchnata a chynyddu beichiau gweinyddol. Bydd meithrin gallu cydymffurfio cryf, ymgorffori rhagwelediad cyfreithiol mewn datblygu cynhyrchion a chynnal deialog adeiladol â rheoleiddwyr yn helpu i droi newid rheoleiddiol yn gyfle i feithrin ymddiriedaeth.

## Amgylcheddol

Mae gofynion amgylcheddol yn angenrheidrwydd strategol ac yn wahaniaethwr yn y farchnad. Mae'r argyfwng hinsawdd ac agenda adfer natur y DU yn galw am ddulliau integredig sy'n cydbwyso cynhyrchiant â stiwardiaeth ecolegol. Mae rhagolygon hinsawdd Cymru - gaeafau cynhesach, gwlypach a sychder haf amlach - yn gofyn am addasu mewn systemau glaswelltir, rheoli dŵr a strategaethau iechyd anifeiliaid. Bydd porfeydd parhaus, gwydn â gwerth maethol cryf ynghyd ag iechyd pridd gwell yn sail i hyfywedd hirdymor, gan sicrhau storio a dal carbon. Bydd ffermydd a systemau sy'n mesur, rheoli ac adrodd yn dryloyw ar ganlyniadau amgylcheddol yn ennill manteision enw da ac yn cryfhau eu hachos dros brisio premiwm a chaffael ffafriol.

Yn gyffredinol, bydd y rhagolygon strategol ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yn cael eu llunio gan ddiwygiadau polisi sy'n esblygu, galw cynyddol am dryloywder a tharddiad cynhyrchion, blaenoriaethau defnydd tir sy'n newid ac amodau masnach sy'n newid. Bydd busnesau sy'n cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer y datblygiadau hyn yn gwella eu cynhyrchiant ac yn addasu eu gweithrediadau, yn y sefyllfa orau i aros yn gystadleuol ac yn cydymffurfio mewn marchnad gynyddol gystadleuol a rheoleiddiedig.

# Sefyllfa’r diwydiant o fewn y cyd-destun macro

**Yn seiliedig ar y cyd-destun strategol a amlygwyd yn flaenorol, mae’r dadansoddiad canlynol yn ymchwilio’n ddyfnach i nodweddion diwydiant cig coch Cymru, gan nodi’r cryfderau a’r gwendidau allweddol, yn ogystal â’r cyfleoedd a’r bygythiadau penodol sy’n codi o fewn y dirwedd gymhleth hon.**

## Cryfderau

- Systemau cig oen a chig eidion sy’n cael eu bwydo’n bennaf ar laswellt, gyda chymwysterau amgylcheddol cryf ac apêl lles
- Yr hinsawdd a’r topograffeg gorau posibl ar gyfer glaswelltir, sy’n cefnogi ffermio cynaliadwy effaith isel
- Cig coch sydd wedi’i brofi i fod yn ddwys o ran maetholion, sy’n darparu cynnig iechyd cadarnhaol
- Mae ffermydd teuluol yn dod ag arbenigedd, yn ogystal â gwerth cymdeithasol a diwylliannol
- Enw da byd-eang cydnabyddedig am ddulliau cynhyrchu helaeth sy’n seiliedig ar borfa
- Sianeli gwerthu sefydledig gyda brandiau PGI uchel eu parch a chydnabyddedig
- Sector marchnad da byw a lladd-dai amrywiol yn galluogi mynediad hyblyg i’r farchnad
- Mae marchnadoedd allforio amrywiol cryf, yn enwedig cig oen, yn caniatáu’r cydbwysedd a’r prisiau carcas gorau posibl

## Gwendidau


- Dibyniaeth strwythurol ar daliadau cymorth ar gyfer enillion busnes fferm cadarnhaol
- Mae costau cynhyrchu ar fferm sy’n gymharol uwch yn lleihau cystadleurwydd yn y farchnad fyd-eang
- Mae cyflenwad darniog gan gynhyrchwyr yn cyfyngu ar arloesedd a’r gallu i gynhyrchu mewnwelediad i’r farchnad ynghylch yr ochr gyflenwi
- Anawsterau wrth ddenu a chadw newydd-ddyfodiaid a gweithwyr newydd
- Gall tymor cig oen effeithio ar arferion ac argaeledd y gadwyn gyflenwi
- Mae graddfa gyfyngedig yn cyfyngu ar bresenoldeb yn y farchnad a thwf posibl i farchnadoedd newydd a rhai sy’n dod i’r amlwg
- Mae ansicrwydd gwleidyddol ac agweddau tuag at fasnach ac amaethyddiaeth yn cynyddu risgiau ac anwadalrwydd y gadwyn gyflenwi
- Manteisio cyfyngedig ar eneteg a thechnoleg anifeiliaid a phlanhigion sy’n datblygu ar gyfer enillion cynhyrchiant

## Cyfleoedd

- Sefydlu’r ‘Ffordd Gymreig’ fel un gynaliadwy a nodedig
- Defnyddio statws PGI i wahaniaethu cynhyrchion, gan amlygu olrhain, tarddiad a chynaliadwyedd
- Datblygu canolfan ddata ganolog i ategu honiadau a gwella tryloywder
- Gall gwell gwybodaeth am y farchnad gefnogi perfformiad busnes gwell
- Bydd ehangu strategol buchesi gwartheg ucheldir yn cynyddu argaeledd cynhyrchion tra gall pori rheoledig wella bioamrywiaeth
- Mae poblogaeth fyd-eang a’r galw am gig coch yn cynyddu; gyda marchnadoedd newydd yn dod i’r amlwg
- Bydd effeithlonrwydd, hyfforddiant a chynnydd technolegol, trwy Ymchwil a Datblygu, arloesedd ac awtomeiddio, yn gwella cynhyrchiant ac yn gostwng costau
- Negeseuon wedi’u targedu at ddefnyddwyr moesegol newydd posibl sy’n ymwybodol o iechyd
- Gweithio gyda’r gadwyn gyflenwi i sicrhau’r cysondeb gorau posibl o gynhyrchion ac argaeledd drwy gydol y flwyddyn

## Bygythiadau

- Camdybiaeth a chamddealltwriaeth y cyhoedd o ddulliau cynhyrchu, effeithiau a manteision iechyd cig coch
- Allyriadau posibl o symud busnesau neu ollyngiadau carbon drwy fesurau polisi sydd wedi’u cynllunio’n wael
- Pŵer gwario defnyddwyr is, gan arwain at fwy o sensitifrwydd i brisiau
- Cytundebau masnach newydd yn arwain at fwy o fewnforion
- Gallai newidiadau a mwy o ansicrwydd o fewn patrymau tywydd effeithio ar systemau cynhyrchu
- Gostyngiad mewn niferoedd da byw
- Symudiadau i broteinau amgen a dietau hyblyg
- Pwysau gweithlu a phwysau economaidd parhaus ar y gadwyn gyflenwi
- Mae blaenoriaethau defnydd tir cystadleuol mewn perygl o leihau argaeledd tir ar gyfer cynhyrchu da byw
- Gallai problemau iechyd anifeiliaid danseilio perfformiad a chanfyddiad defnyddwyr
- Gallai newidiadau mewn patrymau hinsawdd waethygu bygythiadau i iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys lledaeniad clefydau sy’n cael eu cludo gan fectorau a chlefydau sonotig



# Gweledigaeth

**Ein gweledigaeth ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yw diwydiant cystadleuol, proffidiol, effeithlon a chynaliadwy sy'n cofleidio ei gyfrifoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd hyn yn arwain at ddiwydiant cynhyrchiol, gwydn sy'n tyfu.**

Rôl HCC o fewn diwydiant cig coch Cymru fydd darparu arweinyddiaeth awdurdodol wybodus i dyfu'r diwydiant trwy alluogi a hyrwyddo cynhyrchiant gwell, cystadleurwydd cynyddol, datblygu masnach a marchnata'r cynnyrch.

Bydd HCC yn gweithio i sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru a'i gadwyn gyflenwi ehangach yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â heriau hyfywedd economaidd, diogelwch bwyd, newid hinsawdd a galw defnyddwyr sy'n esblygu wrth gynnal a thyfu presenoldeb cig coch yn y marchnadoedd cenedlaethol a byd-eang.

Mae cystadleurwydd, cynaliadwyedd, premiwmeiddio, llwyddiant masnach a gwella enw da'r diwydiant i gyd wrth wraidd y Weledigaeth hon wrth i ni barhau i sefydlu rhagolygon uchelgeisiol a blaengar i Gymru fel arweinwyr y byd ym maes cynhyrchu cig coch.


# Ein Nod



**Bydd HCC yn arwain ac yn cefnogi diwydiant cig coch Cymru i gynyddu ei bresenoldeb yn y farchnad, ei wydnwch economaidd a'i gystadleurwydd byd-eang wrth ymdrechu i gael effaith amgylcheddol gadarnhaol.**

Bydd HCC yn gyrru ac yn galluogi cynhyrchiant gwell, yn ehangu cyfleoedd masnach ac yn hyrwyddo ansawdd nodedig cig coch Cymru trwy arweinyddiaeth awdurdodol a chydweithio ar draws y gadwyn gyflenwi.





# Blaenoriaethau



Y tri phrif faes ffocws y bydd HCC yn cyflawni yn eu herbyn yw:

### Blaenoriaeth 1

Cynyddu cyfaint a gwerth cig coch brand Cymru a werthir

### Blaenoriaeth 2

Datblygu ac arwain y gwaith o weithredu mentrau sy'n gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol

### Blaenoriaeth 3

Darparu eiriolaeth dros y diwydiant sy'n rhagweithiol, yn gadarn, ac yn seiliedig ar dystiolaeth



# Camau Gweithredu

## Ein hymagwedd

Byddwn yn gweithio ar y cyd, wedi'n gyrru gan bwrpas cyffredin, gan sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, ac yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ystyrlon i wella'r diwydiant cig coch yng Nghymru.



# Blaenoriaeth 1:

## Cynyddu cyfaint a gwerth cig coch brand Cymru a werthir

**Mae ehangu cyfran y farchnad o gig coch â brand Cymreig yn hanfodol ar gyfer gyrru twf economaidd a gwydnwch y diwydiant. Drwy ganolbwyntio a dangos sicrwydd ar ansawdd, olrhain, a chynaliadwyedd a gyda brandio cryf, bydd ein gwaith yn cynyddu'r galw drwy wella mynediad i ddefnyddwyr ac yn meithrin mwy o deyrngarwch. Bydd ein dull hefyd yn helpu i wahaniaethu cig coch Cymru mewn marchnad gystadleuol, gan gefnogi enillion cynaliadwy yn ariannol ar gyfer y gadwyn gyflenwi.**

### Cefnogi a hwyluso rhestrau mewn marchnadoedd domestig

Byddwn yn gweithio'n agos gyda manwerthwyr, proseswyr, cyfanwerthwyr a phartneriaid gwasanaeth bwyd er mwyn cynnal perthnasoedd cryf a sicrhau rhestrau newydd, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddewis cig coch Cymru. Cyflawnir hyn trwy ddull rhagweithiol strategol o weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i sicrhau y gall cig coch Cymru gyflawni ar gyfer dewisiadau defnyddwyr sy'n newid.

### Datblygu marchnadoedd allforio - cryfhau marchnadoedd sefydledig, rhai sy'n tyfu a nodi rhai newydd

Byddwn yn buddsoddi mewn mewnwelediad i'r farchnad, teithiau masnach a phartneriaethau rhyngwladol, i gynyddu gwerthiant cig coch Cymru wedi'i frandio mewn marchnadoedd allforio. Trwy addasu i ofynion a dewisiadau penodol pob marchnad, gallwn wneud y gorau o gyfleoedd allforio i ategu'r galw domestig.

### Mwy o gydnabyddiaeth a galw gan ddefnyddwyr am gig coch Cymru

Trwy fentrau marchnata ac ymgysylltu strategol, byddwn yn adeiladu ac yn cynnal hunaniaeth brand gref sy'n berthnasol i ddefnyddwyr gartref a thramor. Bydd gweithgareddau hyrwyddo wedi'u teilwra i anghenion y gynulleidfa ac amodau'r farchnad yn gwella gwelededd cynhyrchion ymhellach, yn cefnogi twf gwerthiant, ac yn atgyfnerthu enw da cig coch Cymru fel dewis premiwm, cynaliadwy.

PROTECTED GEOGRAPHICAL INDICATION

WELSH LAMB CIG OEN CYMRU

WELSH BEEF CIG EIDION CYMRU

GEOGRAPHIC ORIGIN UK PROTECTED

PORC BLASUS



# Blaenoriaeth 2:

## Datblygu ac arwain y gwaith o weithredu mentrau sy'n gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol

**Er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus a chynaliadwy i ddiwydiant cig coch Cymru, mae'n hanfodol cydbwyso perfformiad economaidd â stiwardiaeth amgylcheddol. Mae'r flaenoriaeth hon yn cwmpasu pwysigrwydd deall statws presennol y diwydiant, meithrin gwelliannau parhaus mewn cynhyrchiant, ac integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd drwy gydol y gadwyn gyflenwi. Trwy gydweithio ac ymrwymiad i arloesi, gall y diwydiant barhau i fod yn wydn, yn gystadleuol, yn broffidiol, a chyfrannu'n gadarnhaol at amgylchedd naturiol Cymru.**

### Mesur y sefyllfa bresennol a nodi gweithgareddau i ysgogi gwelliannau

Byddwn yn comisiynu ac yn cyflwyno asesiadau cynhwysfawr i sefydlu meincnodau clir ar gyfer perfformiad economaidd ac effaith amgylcheddol ar draws diwydiant cig coch Cymru. Drwy nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, byddwn yn gosod targedau realistig ac yn olrhain cynnydd dros amser. Bydd y dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau bod ymyriadau wedi'u targedu a'u mesur, gan gefnogi gwydnwch hirdymor y diwydiant.

### Ymchwilio i gyfleoedd sy'n gwella cynhyrchiant, yn addasu i newid hinsawdd ac yn ei liniaru, ac yn gwella bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol Cymru

Mae buddsoddiad parhaus mewn ymchwil ac arloesedd yn hanfodol i ysgogi enillion cynhyrchiant a sicrhau y gall y diwydiant addasu i'r heriau a achosir gan newid hinsawdd. Byddwn yn cefnogi prosiectau ac ymchwil sy'n hyrwyddo gwelliannau cynhyrchiant, arferion ffermio cynaliadwy, defnydd effeithlon o adnoddau, a diogelu a gwella cyfalaf naturiol Cymru. Drwy sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran datblygiadau gwyddonol a'u cymhwyso ar lefel fferm, gall y diwydiant gynyddu ei gystadleurwydd wrth ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Arwain y cydweithio â phartneriaid priodol i sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith

Byddwn yn meithrin cydweithrediadau'n weithredol â chyrff ardoll partner, sefydliadau ymchwil, cyrff llywodraeth, darparwyr trosglwyddo gwybodaeth a rhanddeiliaid y diwydiant i gyflymu'r broses o fabwysiadu arfer gorau. Drwy gydweithio, gallwn oresgyn rhwystrau i newid a sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y gadwyn gyflenwi. Bydd y dull cydweithredol hwn yn helpu i ymgorffori cynaliadwyedd wrth wraidd diwydiant cig coch Cymru.



# Blaenoriaeth 3:

## Darparu eiriolaeth dros y diwydiant sy'n rhagweithiol, yn gadarn, ac yn seiliedig ar dystiolaeth

**Mewn tirwedd fasnachu gystadleuol a pholisïau sy'n esblygu, mae angen llais unedig ar ddiwydiant cig coch Cymru i hyrwyddo ei fuddiannau, amddiffyn ei enw da ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a llunwyr polisi ar gyfer twf a llwyddiant yn y dyfodol.**

### Datblygu a defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer eiriolaeth y diwydiant

Bydd ein hymdrechion eiriolaeth wedi'u seilio ar ddata a thystiolaeth gadarn, sy'n canolbwyntio ar Gymru, gan sicrhau bod ein safbwyntiau a nodwyd yn gredadwy ac yn berswadiol. Drwy gynnal a rhannu ymchwil, byddwn yn llywio dadleuon cyhoeddus a phenderfyniadau polisi, gan amlygu cyfraniadau cadarnhaol diwydiant cig coch Cymru. Bydd y dull hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid a llunwyr polisi ynghyd â dangos tystiolaeth o hunaniaeth unigryw brandiau Cymru.

### Hyrwyddo pwysigrwydd economaidd a chymdeithasol ehangach diwydiant cig coch Cymru

Byddwn yn cyfathrebu'r rôl hanfodol mae'r diwydiant cig coch yn ei chwarae wrth gefnogi economïau gwledig, cynnal cymunedau, gwarchod treftadaeth ddiwylliannol a stiwardiaeth amgylcheddol. Bydd y gwaith hefyd yn eiriol dros bwysigrwydd cig coch fel rhan o ddiet iach a chytbwys. Drwy arddangos straeon bywyd go iawn a data economaidd, byddwn yn dangos gwerth y diwydiant, gan helpu i sicrhau cefnogaeth a chydnabyddiaeth barhaus gan y cyhoedd a llunwyr penderfyniadau.

### Hyrwyddo buddiannau'r diwydiant cig coch o fewn polisi cyhoeddus Cymru a'r DU

Byddwn yn herio ac yn ymgysylltu'n adeiladol â'r llywodraeth ar bob lefel i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau diwydiant cig coch Cymru yn cael eu deall a'u hadlewyrchu mewn trafodaethau a phenderfyniadau polisi. Drwy gynrychioli buddiannau'r diwydiant mewn fforymau a fformatau addas, gallwn ddylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau rheoleiddio ac ariannu cefnogol. Bydd y safbwynt rhagweithiol hwn yn helpu i ddiogelu dyfodol y diwydiant mewn tirwedd polisi sy'n newid.

Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu hyn o fudd penodol i ddiwydiant cig coch Cymru. Bydd HCC hefyd yn cydweithio â chyrff ardoll eraill ym Mhrydain, er mwyn cefnogi, gyrru ac eiriol dros weithgareddau a fydd o fudd i ddiwydiant ehangach Prydain. Mae enghreifftiau o'r gweithgarwch hwn yn cynnwys ceisio mynediad ychwanegol i'r farchnad ryngwladol, ychwanegu gwerth at y pumed chwarter, ymchwilio i fanteision maethol cig coch ac elfennau o eiriolaeth ac amddiffyn y diwydiant.



# Gweithredu

Bydd HCC yn gweithredu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y ddogfen hon, gyda chanlyniadau mesuradwy ac atebolrwydd clir. Rhagwelir, er mwyn sicrhau cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus, y bydd angen cynyddu cyllid HCC yn sylweddol, sydd bron yn gyfan gwbl yn 2025/26 yn Ardoll Cig Coch Cymru. Bydd cronfeydd atodol ychwanegol yn cael eu targedu'n weithredol er mwyn cefnogi a gwella cyflawniad gweithgareddau yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir.

Mae HCC hefyd yn cyhoeddi Cynllun Busnes, a fydd yn amlinellu'n fanwl sut y bydd y strategaeth hon a'r blaenoriaethau a nodwyd yn cael eu cyflawni.





# Atodiad 1: Cyd-destun cyfreithiol a pholisi

**Isod amlinellir cyd-destun polisi a chyfreithiol y ddogfen hon:**

- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023
- Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol
- Strategaeth iechyd a lles anifeiliaid
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2024
- Cynllun aer glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach
- Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
- Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cymru Sero Net
- Rhaglen lywodraethu
- Canllaw i ymarferwyr ar rwydweithiau ecolegol cadarn
- Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Strategaeth diwydiant twristiaeth
- Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)